# Maes Gweithredu Allweddol 2

## 2. Bod â digon o opsiynau lleoli o ansawdd uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal neu'n gadael gofal.

Mae'r maes gweithredu hwn yn canolbwyntio ar ddarparu a chomisiynu cymysgedd hyblyg a fforddiadwy o leoliadau o ansawdd uchel i blant sy'n derbyn gofal, i ddiwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau amrywiol.

Mae'r ffrydau gwaith o dan y maes gweithredu hwn wedi'u nodi isod gyda chrynodeb o weithgaredd allweddol.

Ffrwd gwaith 1 - Gwella digonolrwydd, dewis ac ansawdd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

- Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gymryd camau i sicrhau bod ganddyn nhw ddigon o lety i ddiwallu anghenion y plant maen nhw'n gofalu amdanyn nhw.

- Amlygwyd yr angen am ddull strategol o gomisiynu'r lleoliadau hyn yn yr Adolygiad Argyfwng Gofal (https://www.frg.org.uk/images/Care_Crisis/CCR-FINAL.pdf) ac Ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Llywodraeth Cymru am Blant a Phobl Ifanc sy' wedi Derbyn Gofal (Tachwedd 2018)

  http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11857/cr-ld11857-w.pdf

- Mae Grŵp Llywio Prosiect wedi'i sefydlu i gwmpasu sut olwg fyddai ar ddull cenedlaethol o gomisiynu lleoliadau ac i lywio'r gwaith o ddatblygu dull a rennir o gomisiynu lleoliadau.

- Comisiynwyd ymchwil i goladu tystiolaeth ar batrymau lleoliadau o fewn awdurdodau lleol, pwysau ar argaeledd a chostau lleoliadau, y rhesymau tu ôl i gostau lleoliad uchel a gwerth am arian ac effaith penderfyniadau comisiynu ar ganlyniadau i blant.

Ffrwd gwaith 2 - Gweithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

- Mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol wedi'i ddatblygu i helpu i sicrhau bod digon o leoliadau maeth o ansawdd da gyda chefnogaeth dda i ddiwallu angen cynyddol am leoliadau maeth yng Nghymru. Mae'r Fframwaith yn ceisio sicrhau newid trawsnewidiol yn y ffordd y mae gofalwyr maeth yn cael eu recriwtio, eu cadw, eu cefnogi, eu parchu a'u talu.

- Yn ogystal â chynyddu nifer gyffredinol y lleoliadau maeth, mae'r Fframwaith wedi bod yn ceisio ail-gydbwyso'r sector tuag at faethu awdurdodau lleol yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a lleihau cost gyffredinol lleoliadau.

- Mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol bellach yn ei drydydd cam ac yn 2018-19 dechreuwyd ar y gwaith o greu brand Cymru gyfan ar gyfer maethu awdurdodau lleol, a sefydlu strategaeth farchnata i gefnogi'r brand, i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u recriwtio lleol a strategaethau cadw. Mae'r pwyslais wedi bod ar weithio rhanbarthol a gefnogir ar y lefel genedlaethol lle bo hynny'n briodol.

- Mae dolenni isod i adroddiadau'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol - https://www.thefosteringnetwork.org.uk/sites/www.fostering.net/files/uploads/pdf/nff_phase_one_report_1.pdf

  https://www.thefosteringnetwork.org.uk/sites/www.fostering.net/files/content/nffcomsbulletin2.pdf

Ffrwd gwaith 3 - Datblygu ymhellach gallu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru i ddiwallu'r angen am leoliadau a datblygu model o gymorth mabwysiadu.

- Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn gydweithrediad arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau mabwysiadu. Mae'n dwyn ynghyd wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol Cymru i mewn i strwythur tair haen sy'n cynnwys partneriaethau ar bob lefel gydag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol wedi'u lleoli yng Nghymru, y Gwasanaethau Iechyd ac Addysg yn ogystal ag eraill.

  https://www.adoptcymru.com/home.php?page_id=8&setLanguage=2

- Gall plant a fabwysiadwyd fod ag anghenion ychwanegol ac mae llawer o deuluoedd sy'n mabwysiadu yn elwa o help a chyngor ar wahanol gamau yn eu bywyd teuluol. Gall anawsterau ddeillio o brofiadau cynnar sy'n dylanwadu ar ymddygiad plentyn gartref neu yn yr ysgol neu gall fod rhai agweddau ar fod yn deulu mabwysiadol nad yw teuluoedd eraill yn eu profi. Er enghraifft, yn aml mae angen help ar blant mabwysiedig i ddeall eu gorffennol, neu efallai eu bod am ddarganfod mwy am eu teulu biolegol neu drefniadau cyswllt.

- Er mwyn diwallu anghenion plant mabwysiedig a'u teuluoedd, mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru wedi datblygu Fframwaith ar gyfer Cymorth Mabwysiadu. Mae'r Fframwaith hwn yn nodi eu huchelgais i wella sut mae teuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru yn cael eu cefnogi a'i

gwneud hi'n haws i'r help cywir fod ar gael pan fydd ei angen. Mae eu fersiwn gyfredol o'r Fframwaith ar gael yma.

- Er mwyn helpu i wella cefnogaeth fabwysiadu ledled Cymru yn unol â'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu Cenedlaethol, darparwyd cyllid o £2.3m i awdurdodau lleol yn 2019/20.

- Bydd y cyllid newydd ychwanegol hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol ddyrannu adnoddau ychwanegol i gryfhau a gwella'r gwasanaethau cymorth presennol ar gyfer mabwysiadwyr, plant a phobl ifanc gan wella canlyniadau i blant ac adeiladu teuluoedd mabwysiadol gwydn. Byddant hefyd yn gallu cryfhau'r "cynnig" cymorth sy'n cael ei wneud i ddarpar fabwysiadwyr ar gyfer y plant hynny y mae eu hanghenion yn eu gwneud yr anoddaf i'w gosod gyda theulu mabwysiadol, ac sydd o ganlyniad yn aros yr hiraf i adael gofal trwy fabwysiadu.

- I ategu'r cyllid ychwanegol, gweithredir y Gofrestr Fabwysiadu newydd ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn cyflymu paru plant gan gynnwys rhoi gwybod yn gyflymach i'r Gofrestr am bob plentyn a mabwysiadwr cymeradwy yn unol â rheoliadau diwygiedig (un mis).

<u>Ffrwd gwaith 4 - Datblygu dull cydgysylltiedig o wella opsiynau a chanlyniadau lleoliadau i blant a phobl ifanc mewn gofal preswyl a llety diogel.</u>

- Sefydlwyd y Grŵp Tasg a Gorffen Gofal Preswyl ym mis Ionawr 2017 i gymryd camau i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn gofal preswyl. Yn y cyd-destun hwn, mae 'gofal preswyl' yn cyfeirio at gartrefi plant a llety diogel.

- Mae aelodaeth y Grŵp Tasg a Gorffen yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol sydd â diddordeb mewn llety preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

- Mae gwaith y grŵp ers ei sefydlu wedi cael ei lywio gan ystod o ymchwil ac adroddiadau yn y maes hwn gan gynnwys:

- Adroddiad y Comisiynydd Plant, ‘The Right Care: Hawliau plant mewn gofal preswyl yng Nghymru’ (Mehefin 2016), a gyflwynodd brofiadau plant a phobl ifanc sy’n byw mewn lleoliadau gofal preswyl.

  https://www.childcomwales.org.uk/publication/right-care-childrens-rights-residential-care-wales/

- Darparodd adroddiad Cyngor Gofal Cymru,‘Gofal Preswyl yng Nghymru: nodweddion plant a phobl ifanc mewn lleoliadau preswyl’ (Mehefin 2016), broffil cynhwysfawr cyntaf y plant a roddir mewn gofal preswyl, gan gynnwys cartrefi plant.

  https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/13575279.2017.1319798

- Adolygodd adroddiad yr Arglwydd Laming ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, ‘In Care, Out of Trouble’ (Mai 2016) y rhesymau pam mae plant a phobl ifanc â phrofiad gofal yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y rhai a roddir mewn lleoliadau preswyl.

  http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/In%20care%20out%20of%20trouble%20summary.pdf

- Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi comisiynu a lledaenu gwaith ar dulliau gwell o gasglu data, modelau gofal preswyl, lleoliadau y tu allan i'r ardal / trawsffiniol a lleoedd PACE remand.

- Mae'r Grŵp yn datblygu ac yn cyflwyno Cynllun Gweithredu i fwrw ymlaen â gwaith pellach i wella canlyniadau i blant mewn gofal preswyl yn dilyn gwaith o'r adroddiadau a gomisiynwyd.

- I ategu gwaith a nodau'r Grŵp Tasg a Gorffen Gofal Preswyl a gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnig am gyllid cyfalaf a refeniw'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi datblygu dulliau newydd mewn gofal preswyl a fydd yn cysylltu â datblygu dull cenedlaethol o gomisiynu lleoliadau.

- Bydd gwaith y grŵp hefyd yn cael ei lywio gan yr ymchwil a gomisiynwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru a wnaed gan CASCADE ar deithiau i mewn ac allan o lety diogel i blant ar orchmynion lles diogel. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith i ddatblygu'r dull cenedlaethol o gomisiynu lleoliadau.

Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel – Crynodeb https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Profiadau-a-chanlyniadau-plant-a-phobl-ifanc-o-Gymru-sy%E2%80%99n-derbyn-Gorchmynion-Llety-Diogel_Fersiwn-cryno.pdf

Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Profiadau-a-chanlyniadau-plant-a-phobl-ifanc-o-Gymru-sy%E2%80%99n-derbyn-Gorchmynion-Llety-Diogel.pdf